



Datganiad gan y Comisiynydd ar Risgiau Strategol

Rwyf wedi nodi isod y chwe risg strategol allweddol ar gyfer fy nhymor saith mlynedd y credaf y gallent effeithio'n negyddol ar allu fy sefydliad i wneud newid cadarnhaol ar ran Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae fy nghynllun strategol yn arwain gwaith fy nhîm i wneud popeth a allant i atal y risgiau hyn rhag dod yn realiti. Gwnaeth fy holl dîm fy helpu i benderfynu ar y risgiau hyn ac maent yn deall sut mae eu gwaith yn cyfrannu at y dasg o fynd i'r afael â hwynt.

Rwy'n annog fy nhîm i fod yn hy wrth ddehongli fy nghynllun strategol o ddydd i ddydd ac mae hyn yn cynnwys cymryd risgiau y gellir eu rheoli'n dda. Rwy'n adolygu'r risgiau strategol hyn a gweithgareddau fy nhîm o leiaf yn fisol ac rwy'n trafod strategaeth risg gyda fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg o leiaf yn chwarterol i roi i mi fy hunan dawelwch meddwl bod fy mrwdfrydedd i a brwdfrydedd fy nhîm dros wneud gwelliannau i'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio yng Nghymru yn ffocysu ar y dasg, heb golli golwg o'r risgiau hyn.

Rydyn ni wedi gwneud cynnydd da yn ystod blwyddyn un a dau ac mae fy ail adroddiad blynyddol yn dangos sut mae'n gwaith yn cynyddu a'n bod ar y trywydd iawn i gyflawni'n hamcanion strategol. Byddaf yn parhau i adrodd yn flynyddol ar gynnydd wrth i ni symud i mewn i flynyddoedd 3-7.

Rhif y Risg	1
Disgrifiad o'r risg	<p>Nid yw cyrff cyhoeddus yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol a'r materion sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.</p> <p>Mae achosion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none">1) Rydyn ni'n methu adnabod y blaenoriaethau cywir (drwy'r rhain yr ydym yn ffocysu ein gwaith).2) Rydyn ni'n methu ymgysylltu'n ddigonol â rhanddeiliaid, y cyhoedd ac arbenigwyr.3) Rydyn ni'n methu darganfod adnoddau ar gyfer meddwl yn yr hirdymor/am dueddiadau'r dyfodol – Pwynt Gwerthu Unigryw i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol4) Rydyn ni'n methu canolbwyntio'n gyson. <p>Bydd effeithiau'n cynnwys methiant i gyflawni newid buddiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gan arwain at niwed i enw da'r Comisiynydd a'i Swyddfa.</p>



Rhir y Risg	2
Disgrifiad o'r Risg	<p>Methiant i gynhyrchu adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol digonol erbyn 2020.</p> <p>Mae Achosion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none">1) Methiant i ymgysylltu â chyrrff cyhoeddus, neu ennill gwybodaeth gywir/addas oddi wrthynt ar berfformio.2) Methiant ar ran cyrrff cyhoeddus i gofnodi a darparu gwybodaeth addas.3) Prinder adnoddau i reoli'r prosiect mewn dull priodol. <p>Yr effaith fydd methiant i gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol gan wneud niwed mawr i enw da.</p>
Rhif y Risg	3
Disgrifiad o'r Risg	<p>Yn gysylltiedig â Risg 1 uchod.</p> <p>Mae busnes yn mynd yn ei flaen fel arfer o fewn y sector cyhoeddus, ac ymyriadau mewn asesiad a chynlluniau ar gyfer effaith llesiant heb ddangos unrhyw newid. Nid yw cyrrff cyhoeddus yn defnyddio'r 5 dull o weithio.</p> <p>Mae Achosion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none">1) Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn methu ysbrydoli a disgrifio natur dulliau newydd.2) Ein rôl fel sefydliad sy'n cynorthwyo a herio'r rhai sy'n gosod y fframweithiau perfformiad [e.e. Llywodraeth Cymru a'r rhai hynny sy'n adolygu'n annibynnol e.e. Swyddfa Archwilio Cymru] yn methu peri newid.3) Nid oes gennym systemau yn eu lle i asesu, monitro ac adrodd ar newid.4) Nid yw systemau rheoleiddio, cyllid a pholisi cyfredol yn caniatáu cyrrff cyhoeddus i newid neu maent yn gwahardd y newid. <p>Yr effaith fyddai datgysylltiad cyrrff cyhoeddus, anwybyddu'r Ddeddf, ymagwedd cydymffurfio drwy dicio blychau'n parhau ymhlith adolygwyr a rheolyddion gan arwain at newid cyfyngedig mewn datblygu cynaliadwy a dim ond ychydig o gyfraniad tuag at y nodau.</p>
Rhif y Risg	4
Disgrifiad o'r Risg	<p>Partneriaid Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gweithio'n aneffeithiol.</p>



	<p>Mae Achosion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none">1) Y partneriaethau anghywir.2) Termau ymgysylltu aneglur, nad ydynt yn ffocysu ar ganlyniadau;3) Taenu ein hunain yn rhy denau.4) Partneriaeth yn newid neu'n chwalu. <p>Bydd effeithiau'n cynnwys methiant y sector cyhoeddus i fabwysiadu ymagwedd gynaliadwy tuag at weithio ar y cyd, gan fethu rhoi blaenoriaeth i anghenion dinasyddion wrth wneud penderfyniadau.</p>
Rhif y Risg	5
Disgrifiad o'r Risg	<p>Nid yw ein gwaith yn cael unrhyw effaith ar ba mor dda mae cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu â dinasyddion.</p> <p>Mae Achosion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none">1) Mae ein gwaith ar hybu ymgyfraniad ac ymgysylltiad y cyhoedd yn aneffeithiol. <p>Yr effaith yw bod y berthynas rhyngom â'n cyrff cyhoeddus yn aros yr un fath, mae datgysylltiad yn parhau neu'n cynyddu a gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu hanghenion yn erydu ymhellach.</p>
Rhif y Risg	6
Disgrifiad o'r Risg	<p>Methu gweithredu yn ogystal â thrafod</p> <p>Mae Achosion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none">1) Diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth;2) Diffyg ewyllys/neu ddiffyg gallu i drosi datblygu cynaliadwy'n arfer. <p>Yr effaith fydd ein bod yn methu bod yn enghraifft batrymol i eraill ac felly'n methu ysbrydoli eraill i newid.</p>